

Gwyddor Ceffylau Newyddlen 2020

Rhestr o Gyrsiau

MSc

Gwyddor Ceffylau
 Gwyddor Anifeiliaid
 Gwyddor Da Byw

BSc Honours

Gwyddor Ceffylau
 Astudiaethau Ceffylau
 Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol
 Gwyddorau Bywyd

Gradd Sylfaen

Astudiaethau Ceffylau

Diddordeb? Ffoniwch Debbie Nash ar 01970
 622575 neu E-bost: dmn@aber.ac.uk



IBERS Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

© Horses Inside Out

Newyddion Canolfan Geffylau Lluest

Bu'n flwyddyn brysur i Ganolfan Geffylau Lluest. Gan fod y stablau dros dro wedi'u dymchwel a'r manau dŵr a phŵer wedi'u hail-leoli, llwyddwyd i greu digon o le ar gyfer ychwanegu polion newydd i glymu'r ceffylau wrthynt a set newydd o flociau a fydd o gymorth i ddatblygu'r dysgu ar yr iard. Yn ôl yr arfer, rydym yn trefnu ein cynghreiriau dressage a neidio ceffylau annibynnol ein hunain ac mae'r cystadlaethau eisoes yn arbennig o boblogaidd. Aeth ein Timau Marchogaeth BUCS ati i ymarfer yn syth gan fod eu cystadlaethau nhw yn cael eu cynnal yn gynnar iawn yn y flwyddyn academaidd, a daw'r beirniad Dressage Prydain, Dianne Hesketh-Jones atom unwaith bob semester i ddarparu hyfforddiant o safon. Mae Tîm B wedi creu argraff trwy ennill pob cystadleuaeth hyd yn hyn ac wedi cyrraedd Rowndiau Terfynol y Rhanbarth gydag un gystadleuaeth eto i ddod. Rhaid canmol yn arbennig Naomi Roberts (Tîm B) sydd wedi ei gosod mewn safle uchel ym mhob un o'i chystadlaethau. Da iawn Naomi!



Mae ein clinigau misol gyda'r farchoges dressage ifanc, Lucy Pincus yn dal i ffynnu ac mae sawl un o'r marchogion yn mynd ymlaen i elwa o'i gwybodaeth, drwy ennill cystadlaethau Dressage Prydain ar lefel ragarweiniol a hyd at lefel ganolig. Rydym yn ffodus hefyd fod Islay Auty, FBHS yn dod atom ddwywaith y flwyddyn i gyflwyno ei gwybodaeth helaeth ac mae'n rhaid bod yn effro i gael lle yn y sesiynau hyn gan fod y lleoedd yn diflannu'n gyflym. Yn ogystal â'r cystadlaethau a'r clinigau, roeddem yn hapus iawn i groesawu'n nôl atom faethegwyr TopSpec a Dengie i draddodi darlith gerbron myfyrwyr FDS Cystudiaethau Ceffylau a darparu cynlluniau bwydo ar gyfer y stablau i gyd. Edrychwn ymlaen at flwyddyn brysur yn 2020: byddwn yn cynnal clinig gastrogopeg yn yr iard ar gyfer cleientiaid allanol, ar y cyd â'r tîm milfeddygol lleol, gan ddefnyddio'r blociau newydd; clinigau gosod cyfrwy rheolaidd; a llawer mwy o glinigau a chystadlaethau, gan orffen trwy goroni enillwyr ein Cynghreiriau Dressage a neidio ceffylau.

gerbron myfyrwyr FDS Cystudiaethau Ceffylau a darparu cynlluniau bwydo ar gyfer y stablau i gyd. Edrychwn ymlaen at flwyddyn brysur yn 2020: byddwn yn cynnal clinig gastrogopeg yn yr iard ar gyfer cleientiaid allanol, ar y cyd â'r tîm milfeddygol lleol, gan ddefnyddio'r blociau newydd; clinigau gosod cyfrwy rheolaidd; a llawer mwy o glinigau a chystadlaethau, gan orffen trwy goroni enillwyr ein Cynghreiriau Dressage a neidio ceffylau.

Myfyrwyr MSc yn mwynhau tridiau yng Ngregynog

Bob blwyddyn mae myfyrwyr MSc Gwyddor Ceffylau yn mynd i Blas Gregynog ger y Drenewydd i wrando ar ddarlithoedd gan arbenigwyr rhyngwladol ym maes Gwyddor Ceffylau a Gwyddor Anifeiliaid.

Ymhlith y siaradwyr eleni roedd yr Athro Dunan Hannant, Ysgol Filfeddygaeth Nottingham (imiwnoleg ceffylau, clefydau heintus, brechu a strategaethau rheoli), Dr Julia Kydd, Ysgol Filfeddygaeth Nottingham (gordewdra a swyddogaeth imiwnedd ceffylau yn ogystal â feirws hepasifeirws ceffylau), Dr Andrew Hemmings, y Brifysgol Amaethyddol Frenhinol (niwrowyddoniaeth ymddygiadol ceffylau), yr Athro John Newcombe (milfeddyg sy'n arbenigo ar fagu a ffisioleg atgenhedlol ceffylau) ymhlith eraill. Mae'n gyfle gwych bob amser i glywed am waith ymchwil arloesol o lygad y ffynnon! Ac mae'n gyfle hefyd i'r myfyrwyr ddod i adnabod ei gilydd a rhwydweithio gyda'r siaradwyr, a mwynhau'r cinio Nadolig yn ôl yr arfer!!



Llwyddiant ymchwil ceffylau

Bu'r 12 mis diwethaf yn brysur iawn ym myd ymchwil wrth inni weld myfyrwyr PhD yn cwblhau eu rhaglenni hyfforddiant doethurol, papurau cyffrous yn cael eu cyhoeddi a phrosiectau newydd yn cychwyn.

Cwblhaodd **Maithe deBarros** ei doethuriaeth, sef 'The ex vivo and in vitro transcriptomic profiles of equine endometrium using an explant model to further study endometritis'. Llwyddodd y gwaith hanfodol hwn i ddilysu defnyddio model labordy o lid y groth; sy'n achos cyffredin o danffwrthlondeb cesig. Gellir defnyddio'r dechneg hon bellach ar gyfer astudio'r ymateb i'r llid ac mae posibiladau gwych ar gyfer ei defnyddio fel prawf sgrinio ar gyfer triniaethau newydd posibl i ddatblygu'r driniaeth o'r cyflwr cyffredin hwn mewn cesyg magu. Yn ddiweddar, cyflwynodd Maithe ei phapur cyntaf ar gyfer ei gyhoeddi ac mae hi bellach wedi dychwelyd i'w chartref genedigol, Brasil, ond mae hi'n chwilio am brosiectau ôl-ddoethurol, un ai ym Mrasil neu yn y DU. Goruchwyliwyd Maithe gan Dr Debbie Nash a Dr Mina Davies Morel. Da iawn Maithe!



Maithe deBarros ar ôl iddi gwblhau arholiad llafar ei PhD. O'r chwith i'r dde: Yr Athro Patrice Humblot (arholwr allanol, SLU, Sweden); Dr Maithe deBarros, Dr Debbie Nash (goruchwyliwr); Yr Athro Luis Murr (arholwr mewnol, Prifysgol Aberystwyth).

Cyflwynodd un o'n cyn-fyfyrwyr PhD, **Dr Clare Winton**, y papur olaf o dri o'i thraethawd doethurol. Enw'r papur, a gyhoeddir yn Ecology and Evolution, yw 'Genetic diversity within and between British and Irish breeds: the maternal and paternal history of native ponies'. Mae'r gwaith yn cynnwys gwybodaeth werthfawr ac argymhellion yn sail i fridio ac amddiffyn bridiau merlod brodorol er mwyn diogelu eu hadnoddau genetig. Goruchwyliwyd doethuriaeth Clare gan Dr Debbie Nash, Dr Matt Hegarty a Dr Mina Davies Morel.

Mae nifer o brosiectau MRes ceffylau cyffrous ar y gweill ar hyn o bryd hefyd. Mae **Cosette Darby** yn defnyddio model labordy arloesol i asesu effaith rhoi cyffur llyngyr (anthelmintic), ac yn benodol y cyffur praziquantel a ddefnyddir i ladd llyngyr, ar y microbiome coluddol. Mae Kat Montgomery wrthi'n ceisio datblygu rhewi wyau ceffylau gan ddefnyddio technegau a ddatblygwyd ar gyfer gwirio wygelloedd dynol.

Mae **Josh Downing** (MRes.), **Daniella Amiouny** (myfyriwr israddedig) a **Line Lekang** (myfyriwr israddedig) wrthi'n gweithio ar brosiectau ymchwil pwysig sy'n ymwneud â chwsg ceffylau. Mae cwsg yn hanfodol i les pob anifail domestig ond yn anaml iawn y bydd diffyg cwsg yn cael ei fonitro. Gan fod ceffylau

yn sefyll am y rhan fwyaf o'r diwrnod (tua 80%), ychydig iawn o gyfle sydd iddynt fynd trwy wahanol gamau cwsg, yn enwedig cwsg REM lle disgwylir i'r anifail fod yn gorwedd heb ddefnyddio unrhyw gyhyrau. Ystyrir bod ceffylau yn 'gysgwyr manteisgar' sy'n adlewyrchu strategaeth esblygol o osgoi ysglyfaethwyr (trwy beidio â gorwedd) ac yn symud o'r un cyflwr cwsg i'r llall yn amlach. O ganlyniad, gall ceffylau gysgu'n wael oherwydd newidiadau yn eu hamgylchedd (e.e. synau anghyfarwydd, newid stabl, newid mewn golau). Y nod yw ymchwilio i sut gall newidiadau i drefn hwsmonaeth (dyfnder y gwellt ac a oes golau ai peidio yn ystod y nos) effeithio ar hyd cwsg y ceffyl ac effaith bosibl hynny ar agweddau pwysig ar ymddygiad a gwybyddiaeth megis dysgu a'r cof. Bydd Josh, Daniella a Line yn cyflwyno eu canlyniadau yng nghynhadledd UFAW eleni yn Birmingham www.ufaw.org.uk/bham20. Pob lwc â'r astudiaethau cyffrous hyn!



Ymddygiad gorweddol ochrol (ar y chwith) a sternol (ar y dde)



Myfyriwr Gwyddor Ceffylau a Biowyddoniaeth Filfeddygol yn ennill gwobr diwydiant

Treuliodd Kathryn Wilson, myfyriwr BSc Gwyddor Ceffylau a Biowyddoniaeth Filfeddygol ar ei blwyddyn olaf, flwyddyn yn gweithio i Randox Biosciences yn ystod ei Blwyddyn mewn Gwaith (BMG). Bu'n gweithio ym maes Datblygu Busnes, yn eu cynorthwyo i lansio ystod newydd o brofion diagnostig molecwlaid clinigol. Yn ystod ei chyfnod yno, mynychodd 14 o gynadleddau ledled y DU ac lwerddon a negodi cytundebau gyda sawl prifysgol ar gyfer offer biocemeg. Bob blwyddyn, mae Randox yn cynnal cystadleuaeth ar gyfer yr holl fyfyrwyr sy'n interniaid, a daeth Kathryn yn ail ar gyfer Gwobr Myfyriwr Busnes y Flwyddyn 2019 o blith 62 o fyfyrwyr! Llongyfarchiadau enfawr!

Mae myfyrwyr ar bob un o'n cyrsiau BSc Gwyddor Ceffylau a Biowyddoniaeth Ceffylau a Milfeddygol yn cael cyfle i dreulio blwyddyn mewn diwydiant, er mwyn meithrin sgiliau cyflogadwyedd gwerthfawr.



Gallwch ein dilyn ymlaen
Twitter @IBERSEquine